Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

NODIADAU

I gynorthwyo gyda chwblhau'r Cais i adeilad gael ei gymeradwyo a'i gofrestru i'w ddefnyddio fel lleoliad ar gyfer Priodas Sifil/Partneriaeth Sifil, darllenwch y nodiadau hyn i gyd a'r wybodaeth ychwanegol sy'n atodol cyn rhoi dim i lawr ar y ffurflen gais.

A Mae'r ffi o £1,100.00 (Cais newydd), £975.00 (Adnewyddiad o'r Gymeradwyaeth presennol) yn annychweladwy a dylid ei dalu trwy BACS pan yn cyflwyno eich cais.

MANYLION BACS:

Taledig:	Cyngor Sir Ddinbych
Banc:	NatWest
Cod Didoli:	54-41-06
Rhif y Cyfrif:	22837469
Dyfynnwch gyfeirnod:	**F710019559**

B Mae'n rhaid i berchennog neu ymddiriedolwyr yr adeilad wneud y cais.

C Mae'n rhaid i'r adeilad fodloni gofynion safonol canlynol y Rheoliadau:

1 Gydag ystyriaeth i brif ddefnydd, sefyllfa, adeiladwaith a chyflwr, mae'n rhaid i'r adeilad, ym marn yr Awdurdod, fod yn lleoliad gweddus ac urddasol ar gyfer gweinyddu priodasau / ffurfio Partneriaethau Sifil.

2 Mae'n rhaid i'r adeilad fod ar gael i'r cyhoedd yn rheolaidd ar gyfer gweinyddu priodasau / ffurfio Partneriaethau Sifil.

3 Mae'n rhaid i'r adeilad fod â rhagofalon tân sy'n rhesymol ofynnol gan yr Awdurdod, wedi ymgynghori â'r awdurdod tân, a darpariaethau rhesymol eraill y mae'r Awdurdod yn ei bennu sy'n briodol ar gyfer iechyd a diogelwch y bobl a gyflogir yn, neu sy'n ymweld â'r adeilad. (Ers Hydref 1af, 2006, mae'n ofynnol yn ôl Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, i ymgymryd ag Asesiad Risg Tân yn yr adeilad – dylai copi o'r Asesiad Risg Tân gyd-fynd â'r cais hwn).

4 Nid yw'r adeilad i fod ag unrhyw gysylltiad diweddar na pharhaus ag unrhyw grefydd, arferion crefyddol na thueddfryd crefyddol a fyddai'n anghymharus â defnydd yr adeilad ar gyfer gweinyddiad priodasau / ffurfio partneriaethau sifil yn unol ag adran 26(1)(bb) Deddf Priodas 1949 / Adran 6(2) Deddf Partneriaethau Sifil 2004.

5 Mae'n rhaid i'r ystafell neu'r ystafelloedd lle bydd seremoniau priodas yn cael eu gweinyddu / partneriaethau sifil yn cael eu ffurfio, os rhoir caniatâd, fod yn un y gellir ei hadnabod yn ôl disgrifiad i fod yn rhan amlwg o'r adeilad.

D Mewn achos o gwmni cyfyngedig, rhowch ddatganiad ar wahân yn rhoi enwau a chyfeiriadau pob cyfarwyddwr.

GWYBODAETH YCHWANEGOL YNGLŶN Â DEFNYDDIO ADEILADAU FEL LLEOLIAD AR GYFER PRIODASAU SIFIL / PARTNERIAETHAU SIFIL

1 Bydd adeiladau cymeradwy'n amodol ar y canlynol:-

* caiff yr adeiladau eu harchwilio gan yr Awdurdod Lleol cyn caniatáu neu adnewyddu cymeradwyaeth;

* mae'n rhaid i'r perchennog neu ymddiriedolwyr hysbysu'r Awdurdod Lleol ar unwaith o unrhyw newid i'r cynllun a gyflwynwyd neu i ddefnydd yr adeilad;

* mae'n rhaid arddangos hysbysiad addas yn Saesneg ac yn Gymraeg yn datgan bod yr adeilad wedi ei gymeradwyo ar gyfer priodasau/partneriaethau sifil ac yn rhoi cyfarwyddiadau i'r ystafell lle mae'r briodas/bartneriaeth sifil i ddigwydd 1 awr cyn ac yn ystod pob seremoni;

* nid oes unrhyw fwyd na diod i'w gwerthu na'u cymryd gan bobl sy'n mynychu seremoni priodas / partneriaeth sifil yn yr ystafell lle mae'r seremoni'n digwydd 1awr cyn, yn ystod neu am 15 munud yn dilyn y seremoni;

* mae'n rhaid cynnal y seremoni mewn ystafell sydd wedi ei chymeradwyo ar gyfer priodasau/partneriaethau sifil;

* mae'n rhaid i'r ystafell lle mae'r priodasau/partneriaethau sifil i'w cynnal fod ar wahân i bob gweithgaredd arall;

* mae'n rhaid i'r trefniadau ar gyfer y seremoni fod yn gymeradwy gan y Cofrestrydd Arolygol;

* nid yw'r niferoedd sy'n bresennol i fod dros y cyfyngiadau a osodwyd dan reoliadau cynllunio, iechyd, diogelwch a thân; and

* mae'n rhaid i unrhyw ddarlleniadau neu gerddoriaeth a berfformir neu a chwaraeir cyn, yn ystod neu fel arall yn y seremoni fod yn

gwbl seciwlar ei natur, ac wedi ei gyflwyno i'r Cofrestrydd Arolygol i'w gymeradwyo o leiaf 48 awr cyn cynnal y seremoni.

2 Fe all y Cyngor ddiddymu cymeradwyaeth pan ddiystyrir yr amodau a osodwyd ar y gymeradwyaeth a phan fydd yna unrhyw newid i'r cynllun a gyflwynwyd neu yn nefnydd yr adeilad, a bydd angen eu diddymu pan fydd y Prif Gofrestrydd yn dweud felly oherwydd torcyfraith priodas/partneriaeth sifil.

3 Mae'r Cyngor wedi sefydlu gweithdrefn apeliadau fydd yn cynnwys ystyriaeth gan banel o aelodau etholedig yr Awdurdod Lleol.

4 Bydd y Cyngor yn rhoi manylion llawn o bob adeilad cymeradwy sydd wedi eu hychwanegu neu eu dileu oddi ar y rhestr i'r Prif Gofrestrydd o fewn 7 diwrnod.

5 Bydd y Cyngor yn cadw cofrestr, fydd yn agored i'w harchwilio gan y cyhoedd yn ystod oriau swyddfa arferol, lle bydd enw cydnabyddedig yr adeilad cymeradwy wedi ei gofnodi, y cyfeiriad post llawn, y person a wnaeth y cais, dyddiad cymeradwyaeth a dyddiad y bydd y gymeradwyaeth honno'n dod i ben ac enw, cyfeiriad a swydd y person sydd â chyfrifoldeb am sicrhau cydymffurfio â'r amodau sy'n gysylltiedig â'r gymeradwyaeth honno.

6 Mae'r Gyfraith sy'n llywodraethu'r drefn hon:

(i) yn caniatáu i'r Prif Gofrestrydd roi cod ymarfer i'w ddefnyddio gan Awdurdodau Lleol, y rheiny sydd â gofal am adeiladau cymeradwy a swyddogion cofrestru;

(ii) yn hawlio bod perchennog neu ymddiriedolwr adeilad cymeradwy'n caniatáu cyrchiad agored heb dâl i bob aelod o'r cyhoedd i'r ystafell lle mae priodas/partneriaeth sifil i ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod y seremoni;

(iii) yn hawlio bod y partïon i briodas/bartneriaeth sifil yn talu ffi a bennwyd gan yr Awdurdod Lleol fel sy'n briodol i adennill costau swyddogion cofrestru sy'n mynychu seremoni'r briodas/bartneriaeth sifil i'r Cofrestrydd Arolygol. Caiff y ffi ei hanfon at yr Awdurdod Lleol.

7 Mae'n rhaid gwneud cais am adnewyddu cymeradwyaeth sy'n bod yn barod yn ddim hwyrach na 6 mis ac yn ddim cynt na 12 mis cyn y bydd yn dod i ben er mwyn i wrthwynebiadau gael eu hystyried cyn i'r gymeradwyaeth ddod i ben.

Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council